Castell-nedd Port Talbot

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Adroddiad Blynyddol

2025

Cynnwys

Rhagair	2
Cefndir	3
Gweledigaeth	6
Amcanion Llesiant 2023-28	7
Cynnydd	8
Bydd ein plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd	8
· Bydd ein holl gymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy	13
· Bydd modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth	18
· Bydd mwy o swyddi diogel, gwyrdd, am gyflog da, a bydd sgiliau ar draws yr ardal yn cael eu gwella	22
Data, Monitro a Gwerthuso	25
Gweithio Pellach ar y Cyd	26
Cysylltu â Ni	29

Rhagair

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot ei ail Gynllun Llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol ym mis Mai 2023, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol ac ymgynghori ac ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid. Rydym yn falch o gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y Cynllun hwn, sy'n rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn ein bod yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, ac yn gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, rydym yn cael hyd i ffordd drwy'r her o gefnogi ein cymunedau trwy gyfnod pontio Tata Steel, ochr yn ochr â gweithio i fwyafu'r cyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddiad newydd yn yr ardal. Mae'n bwysig ein bod, yn ystod y cyfnod hwn o newid a datblygu, hefyd yn sicrhau ein bod yn gofalu am ein hamgylchedd naturiol fel bod modd i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.

Rydym yn dal yn hyderus bod manteision y berthynas â phartneriaid a ddatblygwyd o ganlyniad i'r BGC wedi'n helpu i ymateb yn fwy effeithlon i'r sefyllfaoedd a gododd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wedi'n rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer gwaith i'r dyfodol. Wrth i ni roi ein hail Gynllun Llesiant ar waith, rydym yn adeiladu ar y perthnasoedd hyn a'r hyn a ddysgwyd wrth i ni gydweithio'n agosach. Efallai bod cyfnod heriol o'n blaenau, ond rydym wedi ymrwymo fel partneriaid i ddod at ein gilydd a gwella deilliannau i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd gennych chi ddiddordeb yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud, a byddem yn croesawu syniadau a chyfraniadau a all gyflawni newid i greu'r Castell-nedd Port Talbot a garai pawb ohonom.

Y Cyng Steven Hunt
Arweinydd CBS Castell-nedd Port Talbot
Cadeirydd BGC CNPT

Roger Thomas
Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru Is-gadeirydd BGC CNPCadeirydd BGC CNPT

Cefndir

Sefydlodd Llywodraeth Cymru fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i annog sefydliadau lleol i weithio gyda'i gilydd a chyda'r trigolion lleol i wella llesiant y bobl sy'n byw yn eu hardal. Cyflwynir y modd y mae Llywodraeth Cymru am weld hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn canllawiau eraill.
Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC), a sefydlwyd gyntaf yn 2016, yn dod ag arweinwyr a llunwyr penderfyniadau ynghyd o gyrff gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a chymunedol, gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r BGC wedi mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â llesiant ac mae'n cydnabod pwysigrwydd ystyried penderfynyddion ehangach iechyd wrth roi sylw i iechyd corff a meddwl ein poblogaeth.
Yn ystod 2021/22 cynhaliodd BGC Castell-nedd Port Talbot asesiad lleol helaeth o lesiant. Gallwch ddarllen am ein canfyddiadau, gan gynnwys crynodeb o themâu allweddol yr asesiad yma.

Defnyddiwyd popeth a ddysgwyd o'r asesiad hwnnw i ddatblygu ail Gynllun Llesiant ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot 2023-28
Crynodeb 1 tudalen o Gynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot

Ein Partneriaid Statudol

Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Ein Partneriaid trwy Wahoddiad

Tai Tarian

COASTAL Housing Group

COEDFFRANC TOWN COUNCIL

NEATH PORT TALBOT CVS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

Neath Town Council
Cyngor Tref Castell-nedd

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Department for Work & Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyngor Cymuned Blaenhonddan Community Council

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

South Wales Police
Heddlu De Cymru

pobl

GRŴP COLEGAU NPTC
GROUP OF COLLEGES

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweledigaeth

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog, iach lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i fwynhau bywyd llewyrchus – rhywle y mae pobl eisiau byw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau lawer i'r dyfodol.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol a chynnig gwerth am arian, bod yn hawdd i bobl eu defnyddio, a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Ar y cyd â'n dinasyddion, byddwn ni'n adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynus, lle bydd hawliau pawb yn cael eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn gydnerth, a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau di-fwlch, wedi'u teilwra, sydd o safon uchel. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi, fel bod modd i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon ar gyfer pobl leol.

Bydd cysylltiad da rhwng ein cymunedau trwy seilwaith digidol a thrafnidiaeth o'r radd flaenaf, a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod ein hamgylchedd naturiol, fel bod bywyd gwyllt yn ffynnu, a chan gefnogi ffyrdd iach o fyw a chymunedau cynaliadwy.

Byddwn wedi cyflawni ein gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan bob person ifanc ac oedolyn y sgiliau a'r cydnerthedd i fod yn iach ac yn llewyrchus; pan fydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau yn ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw yno; a lle gall pobl droi at gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig am gymorth.

Ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2023-28



Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-

Mabwysiadu dull cydlynus o gynnal iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc, fel eu bod yn gallu ffynnu a blodeuo	Sicrhau, pan fydd ein plant ifancaf yn cychwyn yn yr ysgol, eu bod yn hyderus ac yn barod i ddysgu	Sicrhau gwell aliniad a mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn diwallu anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd	Cefnogi a chynghori y rhai sy'n gadael ein hysgolion er mwyn cynyddu mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant

Mae ein cynnydd yn yr ail flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

Mae 100% o'r ysgolion uwchradd ac 80% o'r holl ysgolion yn awr wrthi'n cynllunio, ac wedi mabwysiadu'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Emosiynol a Llesiant. Mae CNPT wedi cyflwyno dull arloesol, sy'n arwain y sector, o gyflawni hyfforddiant Ysgol Goedwig, gan sefydlu model cynhwysfawr sy'n ceisio gwella addysg awyr agored ar draws y sir gyfan. Mae'r model hwn wedi cael ei arddangos fel astudiaeth achos yn un o ysgolion CNPT a arolygwyd gan Estyn yn ddiweddar.	Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg (EYFS) yn parhau i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid amlasiantaeth, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynhwysiad a Iechyd, i roi systemau a phrosesau pontio gerthfawr ar waith fydd yn cefnogi ein plant ifancaf i bontio i ofal plant ac addysg gynnar yn effeithiol. Mae parhau i roi Panel Amlasiantaeth y Blynyddoedd Cynnar ar waith wedi arwain at barhau i gydlynu cefnogaeth yn effeithiol ar gyfer plant cyn-ysgol sydd ag ADY. Ers mis Chwefror 2021, trafodwyd 756 o blant mewn EYMAP, a rhoddwyd cefnogaeth werthfawr i bob un ohonynt.	Mae'r Panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth (EIP) yn dal i weld galw sylweddol am ei wasanaethau. Yn 2024/25, daeth cyfanswm o 1719 o atgyfeiriadau i law, oedd yn cynnwys 1449 o atgyfeiriadau i blant a phobl ifanc. Adolygwyd y gwasanaeth yn 2024, ac o ganlyniad, mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i deuluoedd wedi cael ei gwella, a diweddarwyd y cysylltiadau digidol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar ddiwedd chwarter 4 mae Gweithwyr Ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf wedi gorffen cefnogi 243 o bobl ifanc, y mae 92% ohonynt wedi nodi bod eu llesiant emosiynol wedi gwella.	Mae Tîm Gwaddol y Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu dewis eang o opsiynau i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, er mwyn eu helpu i bontio. Ar ddiwedd chwarter 4, mae'r Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol wedi cefnogi mwy na 220 o ddisgyblion blwyddyn 11. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu Haddysgu Gartref trwy Ddewis (EHE). Mae'r Tîm Cadw mewn Cysylltiad wedi cefnogi 53 o ddisgyblion EHE blwyddyn 11. Cafodd Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid CNPT ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan y Cabinet.

Mewn ymateb i'r amserau aros hir cyn i blant a phobl ifanc dderbyn asesiad Niwroddatblygiadol, mae ALlau CNPT ac Abertawe wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu model cefnogi ymyrraeth gynnar. Nodwyd y prosiect 'Chwalu Mythau' gan Fwrdd Niwroamrywiol Gorllewin Morgannwg, yn ogystal â Thîm Niwroamrywiaeth Cymru, fel enghraifft o arfer da sydd wedi cael ei rannu'n genedlaethol.

Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector i gynyddu mynediad at ofal plant, mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflawni gwaith gwerthfawr. Yn dilyn cyfnod estyn o ddwy flynedd, mae Cyfnod 2 ehangu Dechrau'n Deg wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Ers mis Ebrill 2023, mae 510 o blant sy'n gymwys i dderbyn gofal plant trwy raglen ehangu Dechrau'n Deg wedi elwa o ofal plant o safon uchel a ariannwyd trwy ehangu Dechrau'n Deg.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn darparu cymorth ar ffurf ymyrraeth gynnar ac ataliaeth er mwyn ymdrin â pherygl digartrefedd pobl ifanc. Ar ddiwedd chwarter 4 mae'r tîm wedi cefnogi 29 o bobl ifanc a nodwyd fel rhai oedd mewn perygl o fod yn ddigartref yn ifanc.

Cafodd Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid CNPT ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan y Cabinet. Cyfarfu Grŵp newydd y Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid ym mis Ebrill 2025.
Prosiect SPF Angor Cyflogadwyedd CNPT – Cyfanswm o 115 wedi ymgysylltu, gydag 13 yn cwblhau gwirfoddoli, 34 yn cael swyddi, 14 o gyfleoedd gwaith am dâl, ac 82 wedi cwblhau un neu fwy o gymwysterau neu gyrsiau hyfforddi.
Trwy Gyllid SPF, mae Cyflogadwyedd CNPT wedi rhoi cyfle i ni gynnig lleoliad profiad gwaith (WEP) i bob plentyn blwyddyn 10 yn ein system addysg uwchradd. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn amhrisiadwy, ac yn llwyddiant mawr i'r rhai gafodd y lleoliadau.
Yn ystod y cyfnod hwn, mae 359 o bobl ifanc wedi cwblhau WEP, ar draws 4 ysgol.

Mae'r grŵp arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i gydlynu gweithrediad y Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc yn effeithiol. Sefydlwyd pum grŵp amlasiantaeth Deilliannau Blaenoriaeth i roi sylw i'r blaenoriaethau strategol a nodwyd. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd i ddatblygu cynlluniau gweithredu fydd yn cyflawni'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd, gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar. Rhagwelir y bydd y cyfnod hwn o'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter 1, 2025.

Y pum blaenoriaeth yw:-

Cefnogi ein plant ifancaf fel eu bod yn iach ac yn barod i ddysgu.

Bod Plant, Pobl Ifanc a'u teuluoedd yn gallu cyrchu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Bod Plant a Phobl Ifanc yn gallu cyrchu addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu sgiliau mae arnyn nhw eu hangen ar gyfer y dyfodol maen nhw eisiau.

Bod Plant a Phobl Ifanc yn cael gwrandawiad, a chyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau.

Dylai pob Plentyn a Pherson Ifanc gael eu cefnogi i'w helpu i fod yn gorfforol iach a theimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol.



Yn ogystal â'r gwaith yma, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol CNPT ac Abertawe ar ran y BGC i ddatblygu cyfres o Egwyddorion fydd yn cynnal gwaith rhanbarthol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Dyma Egwyddorion Cydweithio'r Blynyddoedd Cynnar. Rydyn ni'n credu y dylid targedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn gyntaf, er mwyn lleihau anghydraddoldeb.

Beth wnawn ni nesaf:

Symud ymlaen gyda Chynllun CNPT ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Phlant a Phobl Ifanc a gweithio mewn Partneriaeth â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys yr ymrwymiad a wnaed i Egwyddorion Cydweithio Rhanbarthol y Blynyddoedd Cynnar, y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Gweithredu a gwreiddio'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid.

Adolygu sut mae gwasanaethau'n sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mireinio sut adroddir am hyn a sut mesurir yr effaith. Datblygu sgiliau plant, pobl ifanc a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod eu lleisiau'n ganolog i benderfyniadau allweddol.

Gweithio ar dri maes blaenoriaeth tymor byr a nodwyd ar draws y blynyddoedd cynnar. Canolbwyntio ar gerrig milltir allweddol o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, fel rhan o'r daith ddatblygiadol ehangach. Adeiladu ar raglen Plentyn Iach Cymru i gefnogi iechyd a llesiant pob plentyn. Cefnogi pontio i addysg.

Lleihau nifer y bobl ifanc NEET ymhellach trwy gefnogi a thywys disgyblion blwyddyn 11 i bontio i fywyd ôl-16, a pharhau i gefnogi pobl ifanc wedi iddyn nhw gyrraedd 16 oed.

Sut byddwn ni'n gwybod?

Lleisiau plant a phobl ifanc sydd wedi ffurfio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac mae'n bwysig eu bod nhw'n rhan o werthuso'r blaenoriaethau a'u heffaith. Mae Deilliant Blaenoriaeth 4 yn y Cynllun PPI yn nodi y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu gwrando, ac yn cael cyfleoedd i chwarae rhan weithredol pan wneir penderfyniadau. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer pob agwedd ar waith y BGC, a'r bwriad yw mai'r llif gwaith hwn fydd y man cydlynu er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Ceir rhagor o fanylion yn y fframwaith monitro, ond dyma rai o'r mesurau byddwn ni am effeithio arnynt:-
·% y plant sydd â phwysau iach yn 4-5 oed (Rhaglen Mesur Plant)
·% y sesiynau o absenoldeb heb ei awdurdodi mewn ysgolion 5-15 a gynhelir (Llywodraeth Cymru)
·Sgôr llesiant meddyliol pobl ifanc 11-16 oed (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion – SHRN)
% y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 sydd yn y categori NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) (Ystadegau Cymru)

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Trwy fuddsoddi yn ein blynyddoedd cynnar, rydyn ni'n cefnogi llesiant hirdymor ein hardal, ac yn effeithio ar ein holl amcanion llesiant. Mae ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn edrych ymlaen at 2029 a'r tu hwnt.	Rydyn ni'n cydweithio i atal afiechyd a hybu llesiant. Lle mae materion ehangach yn effeithio ar blant, ein nod yw eu hatal rhag gwaethygu fel bod angen cefnogaeth ddwys, er mwyn i'n plant fedru symud at oedolaeth yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae atal digartrefedd yn ffocws penodol i'n pobl ifanc ar hyn o bryd. urrent focus for our young people.	BTrwy gefnogi ein plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd rydyn ni'n cael effaith ar ein holl amcanion llesiant ac yn edrych ymlaen at CNPT lewyrchus a chynaliadwy. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n well er mwyn cefnogi'r blynyddoedd cynnar, plant a phobl ifanc. .	Ni allwn gyflawni'r camau hyn fel asiantaethau unigol. Mae cydweithio yn allweddol i wneud gwahaniaeth ym mywydau ein plant. Byddwn ni'n datblygu ein cynlluniau gweithredu a'n gweithgorau ar y cyd.	Datblygwyd y Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc trwy siarad â'n teuluoedd yn CNPT a deall beth mae arnyn nhw ei angen a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd parhau i'w cynnwys yn allweddol i sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Bod ein holl gymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-

Sicrhau bod y rhai sydd angen help a chefnogaeth gyda chostau byw yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut mae cael mynediad ati	Nodi bylchau yn y cymorth a'r gefnogaeth a sut gellid rhoi sylw i'r bylchau hynny	Edrych eto ar y gwaith a wnaed gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan cyn y pandemig, ac ailosod yr amcanion a'r camau gweithredu strategol, er mwyn rhoi sylw i achosion gwaelodol tlodi nawr	Gweithio ar y cyd â'n cymunedau, i leihau troseddu, ofn troseddu a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a chydlynus

Mae ein cynnydd yn yr ail flwyddyn yn cynnwys y canlynol

Bu partneriaid y Grŵp Llywio Costau Byw ac Atal Tlodi yn cymryd rhan mewn gweithdy a hwyluswyd gan y Bwrdd Iechyd (SBUHB) ym mis Gorffennaf 2024, wedi'i fframio o amgylch ymarferiad mapio systemau (gan efelychu gweithgaredd gan gyfranogwyr Ffurfio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru ym mis Mehefin 2024).
Bu'r partneriaid yn adolygu adborth gweithdy'r gwanwyn o ran y canlynol:
·Ffactorau dan reolaeth uniongyrchol y BGC
·Ffactorau y byddai'r BGC yn gallu dylanwadu arnynt
·Ffactorau na fyddai'r BGC yn gallu dylanwadu arnynt, ond a oedd yn bwysig
·Ffactorau amgylcheddol
Yn hwyr ym mis Hydref 2024, cynhaliodd y Grŵp Llywio ei weithdy 'maes ffocws' tlodi plant cyntaf, a hwyluswyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG). Thema'r gweithdy oedd 'cost y diwrnod ysgol', ac roedd yn myfyrio ar ganfyddiadau cynnar prosiect CPAG yn CNPT. Roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor Ieuenctid, Cydlynwyr Ardal Leol, Cwtch Mawr a Chanolfan Maerdy hefyd yn bresennol yn y gweithdy i rannu eu hadborth, ac ychwanegodd hynny fewnwelediad gwerthfawr i'r drafodaeth.
Yn dilyn y gweithdy hwn, penderfynodd y Grŵp Llywio y dylai'r cynllun gweithredu ganolbwyntio ar dlodi plant (0-25 oed). Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau a dargedwyd, mae eu nifer wedi cael ei ostwng yn sylweddol, gan gydnabod pwysigrwydd cael yr effaith fwyaf o ystyried yr amser a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.
Y pedwar cam gweithredu yw:
·Mwyafu incwm
·Lleihau Costau Byw
·Cynhwysiant Ariannol
·Cefnogaeth gyfannol i blant a theuluoedd

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel (PDC) sy'n arwain y cam hwn, ac mae wedi cyflawni'r cynnydd canlynol yn ystod y flwyddyn ar gyfer y 6 blaenoriaeth y cytunwyd arnynt i 2024-27, fel a ganlyn:
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) – Mae strategaeth leol ddiwygiedig yn ei lle ar gyfer 2023-2026. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar saith maes gwaith allweddol. Goruchwylir y gwaith hwn gan Grŵp Arweinyddiaeth lleol VAWDASV. Paratowyd Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024.
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Parhaodd gwaith mewn partneriaeth i fynd i'r afael â mannau trafferthus o ran YGG yn ein cymunedau, a gweithio gyda'n troseddwyr mwyaf mynych. Parhau i ymgysylltu â'r gymuned a phwysigrwydd cydnabod beth yw YGG a rhoi gwybod am anawsterau trwy ddefnyddio dulliau

Gan ddefnyddio'r Traciwr Incwm Isel Teuluoedd (LIFT) i adnabod y rhai sy'n gymwys i dderbyn rhai budd-daliadau, ond nad ydynt yn eu hawlio, fe gynhalion ni ambell ymgyrch. Rhwng Ebrill 24 a Mawrth 25, mae'r ymgyrch Credyd Pensiwn wedi codi bron £450,000 mewn incwm Credyd Pensiwn ar gyfer yr hawlwyr llwyddiannus. Ac o ganlyniad i'r Ymgyrch Credyd Pensiwn, amcangyfrifir bod gwerth £37,800 o Daliadau Tanwydd Gaeaf wedi cael ei hawlio'n llwyddiannus – sy'n cyfateb i ryw £200 yr aelwyd.

Er mwyn helpu i ddarparu mannau cynnes, croesawgar i'r gymuned, derbyniodd 34 o sefydliadau grant o £2,285 yr un trwy'r Grant Mannau Cynnes. Roedd y grant hwn yn cefnogi sefydliadau gyda'u costau gwresogi a goleuo, ac yn eu galluogi i gynnig Wi-Fi am ddim, ynghyd â diodydd poeth a bwyd am ddim neu gyda chymhorthdal.

Darparodd y Cynllun Lleddfu Caledi gefnogaeth i fwy na 1,800 o aelwydydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cyflawnwyd cyfanswm o 2,431 o ymyriadau rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, yn amrywio o dalebau i ddarparu gwres, i daliadau i gwmnïau ynni a dŵr.

Llwyddodd Cyngor ar Bopeth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i helpu i ddileu £394,982 yn ystod 24-25, o gymharu â £78,209 y flwyddyn flaenorol – mae hynny'n gynnydd o fwy na 400%! Mae'n dangos bod pwysau costau byw yn parhau, a dyledion yn cynyddu.

O ran cyfathrebu, edrychwyd bron 30,000 o weithiau ar ein tudalennau 'Help gyda Chostau Byw' ar y we, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot

Daliodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot ati i gryfhau'r sector gwirfoddol, y sector cymunedol a'r trydydd sector ehangach trwy gefnogi grwpiau lleol, hwyluso partneriaethau a darparu mewnwelediad gwerthfawr gan gymunedau, oedd o gymorth i lywio ffocws y Grŵp Llywio. Yn ddiweddar, fe wnaethon ni arwain digwyddiad cymunedol yng Ngweithdy DOVE i archwilio heriau ariannu mae sefydliadau ar lawr gwlad yn eu hwynebu, ac rydyn ni nawr yn datblygu rhwydwaith tlodi i gysylltu grwpiau allweddol sy'n cefnogi'r rhai mewn caledi ariannol.

Cydllyniant Cymunedol

Parhau i weithio ar draws y rhanbarth i fonitro a lleihau unrhyw densiynau cymunedol. Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i adeiladu cymunedau cydlynus ac integreddio ein grwpau sydd ar y cyrion. Parhau i weithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwbyddiaeth o Droseddau Casineb ac annog riportio.

Defnyddio Sylweddau

Parhau i weithio trwy'r Bwdd Cynllunio Ardal i ddatblygu, cyflwyno a gwella gwasanaethau effeithlon ac effeithiol yng nghyswllt cameddefnyddio sylweddau.

Atal Troseddau yn Gyffredinol

Rhaglen barhaus o ddigwyddiadau ymgysylltu unigryw 'seiliedig ar le'er mwyn siarad a thrigolion lleol am faterion troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu haral leol; cynddu ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd a mentrau atal trsoeddu, y mae'r tim Diogelwch Cymunedol a'u partneraid wedi'u datblygu mewn ymateb i wybodaeth leol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Trais Difrifol

Mewn ymateb i'r Ddyletswydd newydd yng nghyswllt Trais Difrifol, mae'r bartneriaeth wedi datblygu Bwrdd Rhanbarthol. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion statudol trwy ddatblygu asesiad o anghenion rhanbarthol. Mae swm bychan o gyllid gan y Swyddfa Gartref wedi caniatáu i'r bartneriaeth gyflogi dadansoddwr a nodi meysydd sy'n drafferthus neu'n destun pryder.

Beth wnawn ni nesaf:

Gan fod y ffocws bellach ar dlodi plant, a chan gydnabod bod tlodi plant yn croestorri sawl llif gwaith, bydd angen gwirioneddol i sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol ag eraill. Rydyn ni wedi dechrau trafod sut gallwn ni sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn brydlon. Bydd y gwaith hwn yn cael ei integreiddio'n fanwl â llifoedd gwaith y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, gan gydnabod mai tlodi yw un o brif benderfynyddion anghydraddoldeb iechyd.

Wrth edrych ymlaen at ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, byddwn ni'n parhau â'r mentrau LIFT a dargedwyd a'r ymgyrchoedd cyfathrebu, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y rhai y mae heriau parhaus costau byw yn effeithio fwyaf arnynt.

Mae angen hefyd i ni ddatblygu ymhellach y ddwy flaenoriaeth sy'n weddill – Cynhwysiant Ariannol a Chefnogaeth Gyfannol – trwy nodi camau gweithredu mesuradwy, wedi'u targedu, er mwyn sicrhau bod yn ffocws yn parhau ar effaith weladwy gwaith y Bartneriaeth.

Rydym wedi bod yn awyddus i gynnwys llais y plentyn ers meitin. I gefnogi hynny rydyn ni wedi adolygu aelodaeth y Bartneriaeth yn ddiweddar, ac wedi estyn gwahoddiad i Achub y Plant ac i'r Grŵp Gweithredu ynghylch Tlodi Plant, sydd fel ei gilydd yn ymwneud yn weithredol â phlant a phobl ifanc ar faterion cysylltiedig â thlodi.

Bydd y bartneriaeth yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau allweddol yn ystod 2025/26, gan gynnwys:
Datblygu'r Bwrdd Atal Trais newydd a'r Is-grŵp Trais Ieuenctid, er mwyn bodloni gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol (2022)
Operation Adriatic – Ymgyrch ar lan y môr i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol tymhorol.
Wythnos Ymwybyddiaeth o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Cynhelir yr ymgyrch genedlaethol hon yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf, ac mae thema wahanol i bob diwrnod o'r wythnos.
Y Criw Croch – Y Criw Croch yw digwyddiad arddangos Tîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Castell-nedd Port Talbot, a gynhelir bob blwyddyn ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddyn nhw bontio i'r ysgol uwchradd.

Sut byddwn ni'n gwybod?

Mae metreg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu, i fesur effaith yr ymyriadau ac i ddeall a ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth i'r bobl rydyn ni'n eu targedu. Er ein bod wedi cyflwyno rhai mesurau cysylltiedig â'r ymgyrchoedd cyfathrebu a LIFT, mae gennym ragor o waith i'w wneud ynghylch elfennau cynhwysiant ariannol a chefnogaeth gyfannol y cynllun.
Mae'r Grŵp Llywio yn ymwybodol o bwysigrwydd arddangos 'pa ganlyniad' sydd i'w camau gweithredu, sy'n golygu y bydd monitro a gwerthuso'r cynllun yn hanfodol. Cynhyrchir Adroddiad Uchafbwyntiau at ddibenion adrodd, a chyflwynir hynny i gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywio yn 2025-2026.

Daw'r ystadegau canlynol o gylchlythyr LIFT (Polisi ar Waith), ac maent yn cynrychioli'r 15,682 o aelwydydd yn CNPT sy'n hawlio budd-dal tai ym mis Ebrill 2025, gan ddangos rhai gostyngiadau o gymharu â ffigurau'r llynedd, sydd i'w gweld yn y cromfachau.

- Mae 962 (1,244) o aelwydydd yn debygol o fod yn wynebu tlodi bwyd
- Mae 6,923 (7,397) o aelwydydd yn debygol o fod yn wynebu tlodi tanwydd
- Mae 12,045 (12,887) o aelwydydd yn debygol o fod yn wynebu tlodi dŵr
- Mae 821 (1,112) o'r aelwydydd hyn yn debygol o fod yn wynebu tlodi bwyd a thanwydd
- Mae 821 (1,112) o aelwydydd yn debygol o fod yn wynebu tlodi bwyd, tanwydd a dŵr

Amlinellir y chwe blaenoriaeth yn y Ddogfen Bwriad Strategol a gymeradwywyd yn ddiweddar. Rydym bellach wedi cwblhau un flwyddyn o'r cyfnod gweithredu, lle caiff cynnydd ei fonitro ym mhob un o Fyrddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ac mae adroddiad blynyddol wedi cael ei baratoi. Rhennir hyn gyda'r BGC.
Dyma rai o'r deilliannau arfaethedig yn ystod 2024-27:-
·Cynnydd mewn atgyfeiriadau (VAWDASV) i wasanaethau arbenigol lleol, ac i'r Heddlu a lechyd
·Gostyngiad yn nifer y dioddefwyr eildro o ran achosion o YGG a throseddau cymdogaeth
·Gostwng nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yng Nghastell-nedd Port Talbot (ac Abertawe)
·Bod mwy o bobl yn riportio profiadau o droseddau casineb, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda
Asesiad Anghenion Strategol i gael ei gwblhau ar gyfer ardal Heddlu De Cymru ynghylch y Ddyletswydd Trais Difrifol.

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Mae'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi yn gweithio i ystyried achosion gwaelodol tlodi yn CNPT. Dylai hyn ein galluogi i fod yn fwy eglur ynghylch sut gallwn ddylanwadu er mwyn cyfrannu at ostyngiad strwythurol mewn tlodi – bydd hynny'n cynnwys mesurau ataliol ac adweithiol.	Trwy gydweithio'n agos â'n cymunedau mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ceisio atal a lleiafu troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r grantiau a weinyddir trwy Cymru Gynnes ac ymgyrch LIFT yn atal tlodi rhag gwaethygu.	Mae'r camau gweithredu'n cefnogi pob un o'r pedwar amcan llesiant, a luniwyd i fod yn rhyng-gysylltiedig. Bydd lleihau tlodi yn effeithio'n uniongyrchol ar lesiant economaidd. Rydym hefyd yn gwybod mai ein cymunedau mwyaf bregus sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn sgîl effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd, ac rydyn ni'n gweithio i archwilio'r cyfatebiaethau hyn.	Mae'r camau'n ymrwymo i gydweithio ar y lefel ehangach, nid ymhlith sefydliadau'r BGC yn unig, ond gyda'r gymuned, pobl sydd â phrofiad bywyd, gweithwyr rheng flaen, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae manteision cydweithio effeithiol eisoes i'w gweld.	Elfen ganolog o'r camau gweithredu hyn yw ymrwymiad i gyd-gynhyrchu trwy weithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau rheng flaen. Rhoddir ffocws penodol ar lais y plentyn, gan greu cysylltiad â'r amcan 'Dechrau Gorau mewn Bywyd' mewn perthynas â thlodi plant a materion rhyng-gysylltiedig eraill.

Astudiaeth achos – Cwpan Cydlyniant Cymunedol

Ym mis Awst 2024 cynhaliodd Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel y 'Cwpan Cydlyniant', Twrnamaint Rownderi ar gyfer grwpiau cymunedol a thrigolion lleol.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghlwb Criced Tref Port Talbot, dan nawdd ein Grant Cydlyniant Cymunedol gan Lywodraeth Cymru, TATA Steel, Stiwdio Gwallt Flawless, a chyda chefnogaeth CBSCNPT a Heddlu De Cymru. Bu'r Clwb Criced a MyRounders yn ddigon caredig i hepgor y ffioedd am logi lleoliadau a gwasanaethau, fel bod modd i ni gyflwyno digwyddiad cymunedol di-dâl.

Denodd y digwyddiad dros 400 o drigolion lleol a gafodd gyfle i weld eu teuluoedd a'u ffrindiau'n cystadlu mewn twrnamaint rownderi cyfeillgar. Roedd y timau'n cynnwys: Table Church, Sgiwen, Cymorth i Fenywod Thrive, Gwasanaeth Digartrefedd CRISIS, TESCO, Cydlynwyr Ardal Leol a mwy.

Ar hyd y dydd, bu amrywiol stondinwyr yn hyrwyddo'u gwasanaethau, a negeseuon allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ond hefyd pwysigrwydd cymunedau cydlynus a chynhwysiant.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, a bydd yn dychwelyd ar gyfer 2il flwyddyn yn haf 2026 – yn fwy ac yn well fyth, gydag 14 o dimau'n cymryd rhan.

Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-

Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng yr hinsawdd (addasu a lliniaru)	Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng byd natur a gwella iechyd ein hecosystemau	Cymryd camau ar y cyd i amlygu'r gyd-ddibyniaeth rhwng camau gweithredu yng nghyswllt cynnal a gwella cymunedau cydnerth ac amgylchedd naturiol cydnerth	Annog ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a dathlu a diogelu ein hasedau diwylliannol

Ein cynnydd yn yr ail flwyddyn

Rydym wedi sefydlu Partneriaeth yr Hinsawdd a Byd Natur i arwain ar y camau hyn ar ran y BGC, a hefyd i fwrw golwg dros integreiddio'r amcan llesiant hwn ar draws holl waith y Bwrdd. Mae'r bartneriaeth yn aelod craidd o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor CNPT a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ehangu'r aelodaeth hon er mwyn darparu cynrychiolaeth ehangach ar draws y bartneriaeth.

Mae'r BGC wedi cytuno bod y bartneriaeth hon mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain Asesiad Risg Castell-nedd Port Talbot o ran Newid yn yr Hinsawdd (CCRA) gan ddefnyddio Fframwaith CNC, sy'n cefnogi BGCau i gynnal CCRA o'u Cynlluniau Llesiant.

Bu'r cynnydd yn gyfyngedig yn ystod 2024/25 am nifer o resymau, sy'n cynnwys:

-Newidiadau ac ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth a dyrannu adnoddau mewn sefydliadau partner

-Diffyg rôl cydlynydd/ysgrifenyddiaeth unigol

-Maint tasg y CCRA, a'r adnoddau sy'n angenrheidiol –

-Ymholiadau ynghylch yr angen am ystyried defnyddio cymorth ymgynghorol a'r costau cysylltiedig.

Mae partneriaid allweddol wedi cytuno ar y camau canlynol er mwyn rhoi ffocws a sicrhau cynnydd.

- -Dylai pob sefydliad sy'n un o randdeiliaid y BGC enwebu un cynrychiolydd ar gyfer Grŵp Prosiect y CCRA
- -Dylai'r prosiect gael ei gyflawni'n fewnol
- -Dylai'r prosiect ganolbwyntio ar ble gall y BGC wneud gwahaniaeth o ran Gwydnwch Hinsawdd yn CNPT

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y 5 uchaf o blith y risgiau hinsawdd sy'n berthnasol i CNPT –

Cytunodd y grŵp craidd fod 3 yn dod i'r brig

Gwres Llifogydd Ansawdd Aer

Mae ein Strategaethau Diwylliant a Threftadaeth a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan wedi darparu gweledigaeth a rennir. Maen nhw'n cyflwyno ffyrdd o ddathlu ardal ryfeddol Castell-nedd Port Talbot mewn modd cynhwysol ac agored, a rhannu ein hadnoddau fel bod ein holl drigolion ac ymwelwyr yn gallu profi'r gorau o'n celfyddydau, ein treftadaeth a'n chwaraeon.

Eleni dosbarthwyd £1.9 miliwn o gyllid trwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau i sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Yn ddiweddar, mae Cyngor y Celfyddydau wedi nodi Castell-nedd Port Talbot yn un o'i dair ardal blaenoriaeth yng Nghymru.

Cynhaliodd y Compact Diwylliannol ei gyfarfod cyntaf ar 30 Ebrill 2025.

Rydyn ni'n gyffrous iawn ynghylch croesawu Eisteddfod yr Urdd i Barc Margam ym mis Mai 2025, ac mae'r paratoadau'n dod ymlaen yn dda. Ymhlith cyflawniadau eraill, mae cyfranogiad dysgwyr Cymraeg ar draws ein cymuned (CNPT ac Abertawe) wedi cynyddu eleni i 31% o'r holl gystadleuwyr (ym mis Chwefror 2025), gan greu etifeddiaeth barhaus.

Beth byddwn ni'n ei wneud nesaf:

Mae'r grŵp swyddogion craidd wedi cytuno, wrth symud ymlaen, y dylai ffocws y prosiect fod wedi'i gyfyngu i'r 3 risg hinsawdd pennaf yn ôl partneriaid y BGC. Bydd hyn yn sicrhau bod proses y CCRA yn nodi camau addasu yn y meysydd allweddol lle gall y BGC gael yr effaith fwyaf ar lesiant.
Er mwyn cyflawni hyn y camau nesaf fydd
-Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r CCRA gyda chynrychiolwyr a enwebwyd gan sefydliadau partner y BGC.
-Parhau i gyflawni'r prosiect gan ddefnyddio sgiliau'r BGC (yn hytrach na defnyddio rhywun allanol)
-Sefydlu'r 3 risg hinsawdd sy'n brif flaenoriaeth ymhlith partneriaid y BGC er mwyn llywio ffocws y prosiect

- Parhau i ddosbarthu'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau, sy'n derbyn cyllid SPF
- Recriwtio i swydd Datblygu Sector y Celfyddydau
- Sicrhau cyllid tymor hwy ar gyfer adnodd staffio a phrosiectau'r Strategaeth Diwylliant
- Cynyddu cyfranogiad partneriaid
- Sefydlu strwythur y Bartneriaeth / Compact Diwylliannol yn gadarn
- Cynnal archwiliad o'r tirlun Diwylliannol yn CNPT
- Cwblhau Blwyddyn Canmlwyddiant RB100 a'r Urdd

Sut byddwn ni'n gwybod?

Wrth i waith fynd rhagddo ar y CCRA, cymerir camau i ddechrau datblygu strategaeth addasu ar gyfer yr ardal, a fydd yn cynnwys terfynau amser a mesurau.

Mae'r Strategaethau Diwylliant a Threftadaeth a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan fel ei gilydd yn cynnwys cynlluniau gweithredu manwl. Mae cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn y strategaethau hyn, gyda 70% o'r targedau'n cael eu cyflawni.

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Mae angen i ni weithredu, a chynnal y gweithredu hwnnw, gan ddeall a rhoi sylw i achosion gwaelodol systemig a sicrhau newid trawsffurfiannol. Bydd y CCRA yn edrych mor bell ymlaen â phosibl, gan ein cefnogi a'n llywio i addasu fel partneriaid.	Trwy gydweithio gallwn ni helpu i atal a gwyrdroi'r gwaethygu o ran sefyllfa'r newid yn yr hinsawdd a cholli ein bioamrywiaeth. Bydd ein strategaethau Diwylliant a Threftadaeth yn atal colledion pellach i'n hasedau treftadaeth.	Roedd yn eglur wrth ddadansoddi canfyddiadau'r asesiad llesiant bod ein hamgylchedd naturiol yn effeithio ar bob agwedd ar ein llesiant, a'i fod yn rhan hanfodol o bob un o'n hamcanion. Bydd grŵp yr Hinsawdd a Byd Natur yn cefnogi'r integreiddio hwn ar draws gwaith y BGC.	Ni all unrhyw bartner unigol gyflawni newid ar ei ben ei hun. Fel Bwrdd rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio a derbyn cyfrifoldeb cyfartal er mwyn rhoi sylw i'r amcan hwn.	Byddwn ni'n cynnwys ein cymunedau yn ein penderfyniadau llif gwaith ac yn eu cefnogi i helpu i gynnal a gwella eu hardal leol. Bydd cynnwys y Gymuned yn allweddol i gyflawni ein strategaethau Diwylliant a Threftadaeth. Bydd y CCRA hefyd yn cynnwys trigolion a chymunedau.

Astudiaeth Achos – Canmlwyddiant Richard Burton

Lansiwyd Dathliad Canmlwyddiant Richard Burton, ‘RB100’, ym mis Chwefror 2025, gyda CBSCNPT yn arwain ar ran yr holl bartneriaid ledled Cymru. Sicrhawyd cyllid i gyflwyno ymgyrch farchnata gyfatebol trwy Event Wales, a rhwng Chwefror ac Ebrill 2025, llwyddwyd i gyrraedd cyfanswm o 3.5 miliwn o bobl. Swyddogion CNPT yw cadeiryddion Grŵp Llywio RB100, sy’n cwrdd bob mis i lywio cyflwyno’r prosiect.

Mae’r dathliad blwyddyn o hyd yn cynnwys Llwybrau newydd Richard Burton, teithiau tywys, sgyrsiau am lyfrau, cystadlaethau barddoniaeth etc. a bydd yn cloi â digwyddiad Gala ym mis Tachwedd. Gwelir lefelau uchel o ymgysylltiad â’r digwyddiadau a’r gweithgareddau o blith y gymuned leol ac ymwelwyr â’r ardal. Mae rhagor o wybodaeth am y canmlwyddiant ar gael yma.

www.richardburton100.org

Bod mwy o swyddi diogel, gwyrdd am gyflog da, a bod sgiliau'n gwella ar draws yr ardal

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-				
Datblygu economïau Cylchol a Sylfaenol ac annog pobl a busnesau lleol i wario mwy o arian yn CNPT	Annog economi leol adnewyddol lle caiff effeithiau cynhyrchu a threuliant eu lleihau	Cynyddu nifer y cyfleoedd o ran prentisiaethau, cyfnodau dan hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn yr ardal leol, a chefnogi mwy o bobl i gael mynediad iddyn nhw.	Cefnogi mwy o bobl i gyflawni cymwysterau ar y lefel angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r sgiliau y mae ar gyflogwyr lleol eu hangen yn awr ac yn y dyfodol.	ESicrhau bod busnesau lleol, pobl leol a chymunedau yn elwa i'r eithaf o fuddsoddi pwysig o'r tu allan yn yr ardal, p'un a yw hynny eisoes yn bodoli neu wedi'i gynllunio.

Mae ein cynnydd yn yr ail flwyddyn yn cynnwys y canlynol

Mae cryn weithgarwch yn mynd rhagddo, a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan llesiant a'r camau a nodwyd, gan gynnwys:

Strategaeth Adfywio Castell-nedd Port Talbot (SQW) – mae'r Strategaeth yn cael ei llunio'n derfynol ar hyn o bryd, ac mae SQW wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Economaidd Leol i ddatblygu'r Strategaeth a mapio strategaethau/ cynlluniau/ gweithgareddau sefydliadau partner.

Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y Deyrnas Unedig

Bu Cyngor CNPT yn arwain rhaglen £33m Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2022 a 2025. Roedd pum prosiect angor, Sgiliau, Lluosi, Prosiectau Strategol a saith cynllun Grantiau Trydydd Parti. Daeth y rhaglen i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae rhaglen £14m Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig ar gyfer 2025-26 newydd gael ei lansio, ac mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno rhaglen o brosiectau ar draws tri maes blaenoriaeth: Cymunedau a Lle; Cefnogi Busnesau Lleol; Pobl a Sgiliau.

Mae tri Chynllun Grant Trydydd Parti yn agored i geisiadau gan bob sector.

Cronfa Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig

Mae dwy raglen sy'n cael eu hariannu gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael eu cyflwyno – rhaglen Denu Ymwelwyr Bro Nedd, gan gynnwys Parc Gwledig y Gnoll a gwelliannau i seilwaith Pontneddfechan, a rhaglen Adnewyddu Canol Tref Port Talbot, sy'n cynnwys gwelliannau i Theatr y Dywysoges Frenhinol. Mae'r rhaglenni i gael eu cwblhau erbyn gwanwyn 2026.

Mae prosiect Pont Heol Bontnewydd yn disgwyl am gytundeb cyllido ffurfiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond ar hyn o bryd dyfarnwyd cyllid ar gyfer dylunio'r prosiect yn unig. Yn dilyn Adolygiad Gwariant y Gwanwyn, cawn wybod a oes cyllid ar gael i gyflawni'r cynllun.

Sbardun Arloesi ac Ymchwil y Deyrnas Unedig (UK Research and Innovation Launchpad)

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn bartner strategol yn Sbardun Diwydiant Sero Net Innovate UK yn Ne-orrllewin Cymru, sy'n Gyrru Arloesedd a Thwf Sero Net, ac yn darparu cyfleoedd cyllido a chefnogaeth ranbarthoi i fusnesau sy'n datblygu mentrau datgarboneiddio.

NEWID (SWITCH) i adeiladau sero net trwy PBIAA UKRI

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn bartner dinesig gyda Phrifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd er mwyn cyflymu mabwysiad camau arloesol, er mwyn i'r technolegau hyn ddod yn fwy fforddiadwy ac eang eu cwmpas. Bydd yr ecosystem arloesi hon hefyd yn creu cadwyni cyflenwi lleol cryf, fydd yn hybu twf economaidd yn y rhanbarth.

Cyfnod Pontio TATA

Pecyn ymateb brys yn gwbl weithredol ac yn cael ei gyflwyno gan Gyngor CNPT, gan gynnwys y cronfeydd canlynol:

- Cadwyn Gyflenwi
- Cyflogadwyedd a Sgiliau
- Twf Busnes, Cydnerthedd a Chychwyn Arni

Datblygwyd nifer o brosiectau cyfalaf gwerth uchel hefyd, gyda phrosiect SWITCH yn cael ei gymeradwyo, a hefyd becyn pellach o brosiectau adfywio ar y gweill.

Porthladd Rhydd Celtaidd

Y broses o gyflwyno dogfennau ar gyfer Achos Busnes Llawn wedi'i chyflymu, fel bod y cyflwyno bellach wedi digwydd. Dynodwyd dau o'r tri safle Treth.

Cynllun Gweithredu Economaidd Lleol (LEAP)

Lluniwyd fersiwn derfynol y strategaeth, ac mae'n cael ei defnyddio i fframio datblygiad y cronfeydd refeniw a chyfalaf a gefnogir trwy Gronfa Bontio TATA.

Beth byddwn ni'n ei wneud nesaf:

- ·Cwblhau Strategaeth Adfywio a Datblygu Economaidd CNPT
- ·Lansio a chyflwyno prosiectau cyfalaf Cyfnod Pontio TATA
- ·Cymeradwyo Achos Busnes Llawn y Porthladd Rhydd Celtaidd
- ·Cynllunio ar gyfer rhaglenni ariannu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol
- ·Paratoi strategaeth adfywio tir ein hetifeddiaeth Ddiwydiannol.

Sut byddwn ni'n gwybod?

Mae prosesau monitro a gwerthuso yn eu lle ar gyfer yr holl ymyriadau, ac adroddir yn ôl arnynt yn rheolaidd i'r BGC.

Long Term	Prevention	Integration	Collaboration	Involvment
Byddwn yn edrych mor bell i'r dyfodol â phosibl, gan sicrhau bod gennym ni'r sgiliau cywir ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a datblygu ein heconomi sydd mewn cyfnod o bontio mewn modd gwyrdd a chynaliadwy..	Mae angen gweithredu i atal llwybr tlodi rhag mynd tuag i lawr ymhellach trwy archwilio'r achosion gwaelodol a chymryd camau ar y cyd.	Mae'r economi yn cael effaith ar draws ein holl amcanion llesiant ac mae cysylltiadau penodol ag amcan yr amgylchedd o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo.	Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod ein heconomi leol yn gwneud cynnydd. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio fel partneriaid, a hefyd gyda'n busnesau sector preifat. Bydd mapio strategaethau economaidd partneriaid yn rhoi sylfaen dda i ni ar gyfer gyrru'r amcan hwn ymlaen.	Bydd angen cynnwys pobl yn eang i symud yr amcan hwn ymlaen, o unigolion a chymunedau i fusnesau bach a gweithgynhyrchwyr mawr, y bydd eu mewnbwn yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

Data, Monitro a Gwerthuso

Porth Data Llesiant y BGC

Yn ystod 2024-25 rydyn ni wedi gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu Porth Data Llesiant y BGC i CNPT. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud ar y cyd â BGCau Abertawe a Chwm Taf Morgannwg. Yn dilyn gwaith helaeth i fapio ein cynlluniau llesiant, llwyddwyd i gytuno ar set gyffredin o ddangosyddion perthnasol, a fydd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn porth a frandiwyd ar wahân ar gyfer pob un o'r BGCau.

Defnyddir yr wybodaeth hon yn ffynhonnell data ar gyfer asesiadau poblogaeth a llesiant yn y dyfodol, yn ogystal ag er mwyn asesu cynnydd ac olrhain hynt ein hamcanion llesiant trwy helpu i lywio ein fframwaith monitro, y ceir manylion amdano isod.

Fframwaith Monitro'r BGC

Mae gwaith wedi bod yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso er mwyn arddangos cynnydd yng nghyswllt cyflawni'r Cynllun Llesiant. Mae'r fframwaith yn cynnwys dangosyddion poblogaeth allweddol sy'n berthnasol i bob amcan llesiant, ochr yn ochr â rhai mesurau deilliant mwy penodol sy'n ymwneud â llifoedd gwaith y Cynllun.

Yn y Cynllun Llesiant fe wnaethon ni gynnwys nifer o fesurau perfformiad posibl er mwyn tystio i'r cyflawni. Mae'r rheiny bellach wedi cael eu mireinio a byddant yn ffurfio drafft cyntaf Fframwaith Monitro BGC CNPT, sydd ar gael ar ffurf atodiad i'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r fframwaith yn cysylltu ac yn cydweddu â chynlluniau partneriaeth a mecanweithiau adrodd sydd eisoes yn bodoli, a bydd yn sicrhau ein bod yn gallu dangos yr effaith ar draws ein holl amcanion llesiant yn ystod cyfnod y Cynllun.

Gweithio Pellach ar y Cyd

Defnyddio Sylweddau yn Rhanbarthol

Mae BGC CNPT ac Abertawe yn dal i ymdrin ar y cyd â defnydd o sylweddau a marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn yr ardal leol. Maent yn goruchwylio dull newydd ar ffurf Cynghrair o ymdrin â defnydd o sylweddau ar draws y rhanbarth ac yn ymbaratoi i dderbyn canfyddiadau Adroddiad Comisiwn Cyffuriau a fydd yn cyflwyno rhai argymhellion ac yn llywio dull gweithredu'r Gynghrair wrth iddo ddatblygu.

Ffurfio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru

lMewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Iedled Cymru a'u timau, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu hariannu gan y Sefydliad Iechyd i ddarparu rhaglen 3 blynedd ar draws Cymru sy'n cefnogi BGCau i gyflawni eu Cynlluniau Llesiant.

Ffocws y rhaglen yw bod partneriaid lleol yn datblygu ac yn rhannu dysgu ynghylch offer systemau er mwyn gweithio ar benderfynyddion ehangach iechyd, gan adeiladu ar raglenni sydd wedi ennill eu plwyf yn Lloegr a'r Alban.

Penderfynyddion ehangach iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant. Er mwyn sicrhau newid cadarnhaol sy'n para, mae angen i ni ddeall ac ymateb i'r systemau cymhleth sy'n dylanwadu ar y ffactorau hyn a'n hiechyd ninnau.

Mae dulliau gweithredu systemau cyfan yn cynnwys set o offer a fframweithiau ar gyfer taclo'r materion cymhleth hyn, ac maent yn cyfateb yn agos i'r pum ffordd o weithio a chynllun llesiant y BGC.

Mae partneriaid BGC CNPT wedi chwarae rhan weithredol yn y rhaglen hyd yma, ac maen nhw'n ystyried sut gall y dulliau gweithredu hyn ein helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion mawr mae ein cymunedau'n eu hwynebu.

Yn dilyn cyfarfod rhanbarthol diweddar, cytunwyd y bydd Abertawe a CNPT yn gweithio ar y cyd â'r tîm Dull Systemau Cyfan o ymdrin â Phwysau Iach, gan ddefnyddio offer systemau i archwilio'r cyfleoedd i gydweithio ym maes 'Mynediad at fwyd'. Ceir rhagor o fanylion ar y dudalen nesaf.

Dull Systemau Cyfan o Ymdrin â Phwysau Iach

DYn ystod 2024-25, mae BGC Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn gweithio gyda'r tîm Rhanbarthol Dull Systemau Cyfan o Ymdrin â Phwysau Iach. Mae'r tîm yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a'r ddau Fwrdd Iechyd Prifysgol ym Mae Abertawe a Hywel Dda i roi thema 'arweinyddiaeth a galluogi newid' strategaeth genedlaethol Pwysau Iach: Cymru Iach (2019). Mae gwaith y tîm yn cydnabod mai un o'r prif faterion sy'n effeithio ar ein hiechyd fel poblogaeth ar hyn o bryd yw gorbwysau, gan mai traean yn unig o'r oedolion yn ardal Bae Abertawe sydd â phwysau iach, a bod 3 o bob 10 o'n plant yn cychwyn yn yr ysgol dros bwysau

Is-systemau allai fod yn Flaenoriaeth
Gweithgarwch corfforol Ysgol a Chyn Ysgol
Teithio Llesol
Cyfleoedd Hamdden ar gyfer Gweithgarwch Corfforol
Bwyd Ysgol
Hysbysebu a Marchnata Bwyd
Fforddiadwyedd Bwyd
Argaeledd Bwyd Nad yw'n Iach
Bwydo o'r Fron

IYn gynnar yn 2023, cynhaliwyd cyfres o 5 gweithdy ar lefel y sir er mwyn dod ag aelodau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid ehangach ynghyd i fapio a deall yn well achosion gorbwysau yn y rhanbarth. Roedd y ddau 'fap systemau' a ddeilliodd o hyn, y naill ar gyfer gweithgarwch corfforol a'r llall ar gyfer bwyd, yn cynnwys 8 is-system a allai fod yn flaenoriaeth, fel y rhestrir yn y tabl hwn

Amlygodd y broses hon fod achosion gorbwysau yn gymhleth a bod y byd o'n cwmpas yn dylanwadu arnynt. Nid yw'r system bresennol yn cyflwyno'r canlyniadau iechyd a llesiant rydyn ni'n eu dymuno ar gyfer ein cymunedau, ac y maen nhw'n eu dymuno ar eu cyfer eu hunain. Mae newid y canlyniadau hyn yn galw am newid y system o blaid amgylchedd pwysau iach.

Yn ystod hydref a gaeaf 2024, aeth y tîm ati i gychwyn y broses hon, ac eto ymgysylltwyd â BGCau mewn cyfres o 5 gweithdy blaenoriaethu, er mwyn cyfyngu'r ffocws o'r 8 is-system posibl i greu un flaenoriaeth. Ym mis Rhagfyr, daeth mynediad at fwyd, sy'n cynnwys fforddiadwyedd ac argaeledd, i'r amlwg fel blaenoriaeth rhanbarthol ar gyfer gwaith ar y cyd yn ystod y flwyddyn sy'n dod ac wedi hynny.

Bydd Dull Systemau Cyfan gyda mynediad at fwyd yn flaenoriaeth yn cyfrannu at nod system fwyd gynaliadwy a bwyd da i bawb ar draws ein rhanbarth, ac mae'n cydweddu â blaenoriaethau Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2025-26.

Y Camau nesaf

Yn ystod 2025-26 bydd gwaith yn cael ei wneud i fireinio'r ffocws oddi mewn i flaenoriaeth mynediad at fwyd. Edrychir ar ymarferoldeb symud ymlaen gyda'r gwaith ar y cyd â BGC Abertawe. Fel cam cyntaf yn y cyfnod nesaf hwn, mae'r tîm wrthi ar hyn o bryd yn cynnal Dadansoddiad o Rwydweithiau Cymdeithasol er mwyn dod i ddeall y berthynas rhwng unigolion a sefydliadau ar draws y system fwyd ranbarthol. Ar ben hynny, mae 23 aelod o'r BGC wedi mynegi diddordeb mewn dod yn rhan o Rwydwaith Dysgu rhanbarthol. Cychwynnir hyn gan y tîm gyda'r nod o rannu dysgu ac adeiladu systemau, gan feddwl am y systemau sydd eisoes ar waith. Y gobaith yw y bydd y rhwydwaith hwn, gydag amser, yn cael ei greu ar y cyd ac yn hunangynhaliol.

Gweithdy Effaith ar Iechyd i lywio Cynllun Datblygu Lleol Amnewid CNPT

Sbardunodd y BGC weithdy Effaith ar Iechyd i helpu i lywio cyfnod Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA). Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn paratoi CDLIA i gwmpasu'r cyfnod o 2023-2038. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLIA, mae'r awdurdod lleol yn cynnal proses ymgynghori helaeth, ac yn cynhyrchu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), sy'n ymgorffori Asesiad Effaith cymesur ar Iechyd (AEI). Er mwyn ystyried ymhellach effeithiau posibl y CDLIA ar iechyd grwpiau bregus yn y boblogaeth, penderfynyddion iechyd ehangach, ac anghydraddoldebau iechyd, cynhaliwyd gweithdy cyfranogol i randdeiliaid ar gyfer yr Asesiad Effaith ar Iechyd ym mis Mawrth 2025. Roedd y gweithdy'n cynnwys partneriaid y BGC a phartneriaid ehangach oedd â gwybodaeth ac arbenigedd yng nghyswllt iechyd a llesiant cymunedau yn CNPT.

Bydd canfyddiadau'r gweithdy hwn yn helpu i lywio cyfnod nesaf y CDLIA, a bydd yn sylfaen ar gyfer Grŵp Technegol Iechyd fydd yn cefnogi'r broses ymgynghori ymhellach. Adeiladodd y gweithdy ar ystod o dystiolaeth a goladwyd eisoes gan Gyngor CNPT, y BGC, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Ffocws yr Asesiad hwn o Effaith ar Iechyd oedd casglu gwybodaeth a mewnwelediad rhanddeiliaid er mwyn ychwanegu elfen ansoddol at y dystiolaeth a gasglwyd i lywio datblygiad y CDLIA.

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r BGC yn parhau i gynnwys cynrychiolaeth o Gynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae dyletswydd ar y tri chyngor sydd â'r gyllideb uchaf i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.Ceir gwybodaeth yn eu Hadroddiadau Blynyddol ynghylch sut maen nhw'n cyfrannu at y Nodau Llesiant.

Cysylltwch â Ni

Diolch am ddarllen hwn!

Cewch ragor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT yma

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi fod yn rhan o'n gwaith, anfonwch e-bost aton ni i psb@npt.gov.uk